Un Cam Ar Y Tro

Be alla'i rhoi i ti
Be elli di rhoi i mi
Heb rhannu yr hyn sy' mor brin yn y byd
Be alla'i rhoi i ti

Mae'r cwbwl drosodd mor gloi
Yr amser yn cyrraedd, a'r cyfle yn ffoi
Y dechre a'r diwedd, does dim gwahaniaeth
Mae'r cwbwl drosodd mor gloi.

Cyfeillion annwyl sydd
Om cylch o ddydd i ddydd
Un dydd 'ma' nhw yma, a'r nesa' wedi mynd
Or diwedd gadewyd yn rhydd

Un cam ar y tro
Beth sydd o'n blaenau, fe ddaw yn ei dro
I wneud y gore o'r hyn sydd ar gael
Rhaid cymerid un cam ar y tro.

©Geraint Griffiths 1990